ST. DAVID'S CATHOLIC COLLEGE
COLEG CATHOLIG DEWI SANT

POLISI EFRYDIAETH

2021-22

Dyddiad adolygu'r polisi: Awst 2022

1.0 Rhagarweiniad

Mae'r canlynol yn ffurfio ein polisi efrydiaeth traws-golegol, sy'n cynnwys prosesau ar gyfer monitro presenoldeb, prydlondeb, ac ymddygiad pob myfyriwr, ynghyd â sicrhau cwblhad eu haseiniadau. Yn bennaf, noda'r Polisi Efrydiaeth hwn y broses a dilynir mewn achos pan fydd myfyriwr yn mynd yn groes i'n disgwyliadau o'r hyn sy'n cyfrif fel efrydiaeth dda.

2.0 Cyd-destun

Mae Coleg Catholig Dewi Sant wedi'i ymrwymo'n llwyr i gynnig pob cyfle i'w ddysgwyr, er mwyn ceisio gwireddu'r safonau uchaf posib.

Dylid darllen y Polisi hwn yng nghyd-destun datganiad cenhadol y Coleg, a'i nodau ac amcanion strategol:

Coleg Catholig ar gyfer y gymuned,
sy'n ceisio darganfod a gwireddu potensial llawn pawb,
mewn awyrgylch o gariad, gwasanaeth a pharch a symbylwyd gan Grist.

3.0 Sail Resymegol y Polisi

Darpara Coleg Catholig Dewi Sant y cyfle i bob dysgwr dderbyn addysg a fyddai'n galluogi iddynt gyflawni eu holl botensial. Wrth wraidd hyn oll, mae sicrhau safon uchel o efrydiaeth yn hanfodol. Bydd y Coleg, felly, yn ymdrechu i ddarparu amgylchedd sy'n groesawus a gofalgar, lle gall pob aelod yng nghymuned y Coleg deimlo'n ddiogel.

Bydd y Tiwtoriaid Pwnc, Rheolwyr Maes Dysgu (LAMs) a'r Cyfarwyddwyr Bugeiliol yn cyd-weithio â'r Tiwtoriaid Bugeiliol i sicrhau bod pob dysgwr yn deall pwysigrwydd safon uchel o efrydiaeth. Bydd pob aelod o staff yn gweithio ar y cyd â rhieni/gofalwyr i sicrhau bod pob dysgwr yn meddu ar safon uchel o efrydiaeth.

Bydd y Coleg yn clodfori pob dysgwr sy'n meddu ar safon uchel o efrydiaeth, a'n herio'r rhai sy'n arddangos efrydiaeth anfoddhaol.

4.0 Nodau

- Annog pob dysgwr i anelu am safon uchel o efrydiaeth.
- Sicrhau ymddygiad cadarnhaol a diogel wrth i fyfyrwyr deithio i'r Coleg ac oddi yno.
- Gosod targedau, sy'n ymwneud ag efrydiaeth, ar sawl lefel, gan gynnwys ar lefel y dysgwr unigol, cwrs, maes dysgu, a'r sefydliad.
- Sicrhau bod materion sy'n ymwneud ag efrydiaeth yn flaenoriaeth i bawb sydd ynghlwm â'r Coleg, gan gynnwys dysgwyr, rhieni/gofalwyr, a staff addysgu.
- Sicrhau dull effeithiol ar gyfer casglu, dadansoddi, a monitro'r data sy'n ymwneud ag efrydiaeth.
- Sicrhau cydgysylltiad effeithiol rhwng staff cwricwlaidd a'r staff bugeiliol o ran cyfathrebu materion sy'n ymwneud ag efrydiaeth, gyda chefnogaeth yr Uwch-reolwyr.
- Datblygu cysylltiad cadarnhaol a chyson rhwng y cartref a'r coleg ynghylch materion sy'n ymwneud ag efrydiaeth.

5.0 Ein Hymrwymiad i Efrydiaeth

Bydd y Coleg yn:

- Sicrhau bod pob dysgwr yn ymwybodol o'r prif ddisgwyliadau sy'n ofynnol iddynt fodloni o ran presenoldeb, prydlondeb, ymddygiad, a chwblhau aseiniadau.
- Gosod pob mater sy'n ymwneud ag efrydiaeth yng nghyd-destun ethos a gwerthoedd y Coleg;
- Sefydlu a chynnal record o bresenoldeb, prydlondeb, cwblhad aseiniadau, ac ymddygiad pob myfyriwr;
- Sicrhau bod aelod o staff yn gyfarwydd â'r dulliau o recordio a monitro presenoldeb, prydlondeb, aseiniadau sydd heb eu cwblhau, ac ymddygiad;
- Monitro presenoldeb, prydlondeb, a chwblhad aseiniadau drwy'r system fonitro electronig.

- Darparu data ar bresenoldeb y myfyrwyr i'r staff perthnasol, er mwyn iddynt allu monitro presenoldeb a phrydlondeb pob myfyriwr;

- Clodfori pob myfyriwr sydd wedi arddangos efrydiaeth ragorol, a herio'r myfyrwyr sydd heb, gan gosbi'r rheini sydd ag efrydiaeth wael;

- Sicrhau bod pob dysgwr a'n rhanddeiliaid ar y cyd yn ymwybodol o Bolisi Efrydiaeth y Coleg;

- Pan fo'n briodol, ymglymu rhieni/gwarchodwyr â'r sefyllfa pan ddangosir dysgwr efrydiaeth sy'n wael;

- Rhannu gwybodaeth gyda rhieni/gwarchodwyr am efrydiaeth eu mab/merch, boed hynny trwy nosweithiau ymgysylltu, trwy'r Porth Rhieni, neu drwy nodi'r wybodaeth yn Adroddiad Cynnydd y dysgwr;

- Trafod materion sy'n ymwneud ag efrydiaeth ar bob lefel o fewn y sefydliad, gan gynnwys ar lefel staff cwrs, maes dysgu, ac uwch reoli.

- Hyrwyddo a gorfodi côd ymddygiad teithio ar gludiant y Coleg i ddysgwyr.

Ceir gweithdrefnau clir y mae angen eu dilyn i fonitro ac ymdrin â materion efrydiaeth ar bob lefel, hynny yw, ar lefel gwrs cwricwlaidd, tiwtoriaid bugeiliol, maes dysgu, a'r lefel sefydliad cyfan.

6.0 Gweithdrefnau ar gyfer delio ag efrydiaeth sy'n wael

Mynd yn groes i'n Disgwyliadau Efrydiaeth fel Coleg

Disgwylir i ddysgwyr gydymffurfio â disgwyliadau'r coleg, ac isod, noder yr amgylchiadau pan aiff dysgwr yn groes i'r rhain:

- **Presenoldeb**: os yw dysgwr yn absennol yn ôl patrwm rheolaidd heb reswm cadarn i'w gadarnhau.

- **Prydlondeb**: os yw dysgwr yn hwyr i'w (g)wersi yn gyson, a bod hyn bellach yn batrwm rheolaidd i'r dysgwr hwnnw.

- **Cwblhau Aseiniadau**: Os metha dysgwr i gyflwyno gwaith erbyn y dyddiad cau swyddogol neu ddyddiad cau pellach a gytunwyd ymlaen llaw.

- **Ymddygiad**: Disgwylir i ddysgwyr ymddwyn mewn modd sy'n gyson â chenhadaeth ac ethos Catholig y Coleg. Ar bob adeg, naill ai ar safle'r Coleg, mewn gwersi, neu oddi ar y safle, disgwylir i ddysgwyr osgoi unrhyw ymddygiad sy'n peri risg o niweidio enw da'r Coleg.

Mewn achos pan aiff dysgwr yn groes i ddisgwyliadau'r coleg, disgwylir i'r tiwtor pwnc, rheolwr maes dysgu, a'r tîm bugeiliol gyfathrebu unrhyw bryderon i'r dysgwr a'i r(h)iant / (g)warchodwr gyda'r nod o geisio gwella'i efrydiaeth.

Cam	Proses	Graddfa Amser a chyngor
Y Cam Cychwynnol Presenoldeb Ymddygiad Cwblhad gwaith	**Rhoi rhybudd ar lafar**	Caiff y rhain eu delio gan **athro'r pwnc** yn y lle cyntaf. Cyn iddo/iddi roi'r rhybudd y tro cyntaf, dylai'r athro ffonio gartref i'w hysbysu o'r sefyllfa, a chynnig unrhyw gefnogaeth bellach iddynt. Ar ôl i **ddau rybudd (neu fwy)** gael eu recordio ar yr eILP (sydd fel arfer yn cael ei wneud yn ystod cyfnodau tymor y Coleg), gellir ymofyn am **rybudd am welliant**. Dim ond mewn achosion difrifol iawn y dylai'r uchod gael ei gwblhau o fewn 10 diwrnod neu'n llai. Gydag ymddygiad a ystyrir yn ddifrifol iawn, bydd angen delio â'r achos hwnnw ar unwaith. Gellir diffinio ymddygiad 'difrifol' fel un sy'n peri risg i ddiogelwch neu les pobl eraill.
Gofyn am rybudd am welliant	Gall athro'r cwricwlwm gofyn am rybudd am welliant ar sail y ddau rybudd blaenorol sydd wedi'u cofnodi a'u rhoi i'r unigolyn. **Mae'n rhaid i'r rhybudd hwn gynnwys targed SMART sy'n gyraeddadwy o fewn cyfnod o 10 diwrnod.**	Gyda'r mwyafrif o'r achosion, caiff rhybudd am welliant ei roi o fewn **3 diwrnod gwaith** wedi'r penderfyniad i'w weithredu.

	Bydd y Tiwtor Bugeiliol, ar y cyd â'r Rheolwr Bugeiliol, yn pennu p'un a geir rheswm da dros wneud hyn ai peidio. Ni chaiff rhybudd am welliant ei weithredu ar yr amod y ceir pryder arbennig ynghylch y myfyriwr e.e., problemau iechyd meddwl neu broblem diogelu.	
Rhoddir rhybudd am welliant i'r myfyriwr	Bydd pob rhybudd yn nodi'r broblem gan ddarparu targed penodol a realistig ar gyfer gwelliant a gytunwyd gyda'r athro/athrawon a'r tiwtor bugeiliol. Caiff rhybudd am welliant ei anfon at y myfyriwr a'i r(h)iant neu warchodwr. Does dim angen llofnod rhiant, ond byddwn yn darparu Microsoft Form lle gall myfyriwr glicio i gadarnhau ei f/bod wedi deall goblygiadau a disgwyliadau'r rhybudd.	Mae'r rhybudd yn weithredol o'r eiliad y mae'r myfyriwr yn ei lofnodi.
Cyfnod rhybudd wedi'i gwblhau	Os yw'r myfyriwr wedi gwella ac ar y trywydd iawn unwaith eto, yna nid oes rhaid gweithredu ymhellach – dim ond monitro'r sefyllfa. Bydd rhoi rhybudd am welliant am yr ail dro yn arwain at waharddiad am gyfnod penodol. Os ni chyflawnir y targedau a nodwyd yn y Rhybudd am welliant	

	cyntaf, yna fe gaiff y myfyriwr hwnnw ei (g)wahardd am gyfnod penodol.	
Gwaharddiad am gyfnod penodol	Gwaherddir myfyriwr am gyfnod o 3 diwrnod, a chaiff llythyr ei anfon at rieni'r myfyriwr.	Ar ddychweliad y myfyriwr i'r coleg, caiff cyfarfod gyda'r tiwtor bugeiliol neu'r cyfarwyddwr bugeiliol ei drefnu er mwyn arwyddo'r cytundeb i ymrwymo i welliant. Fe fyddai'n cael ei adolygu am wythnos. Os nad oes gwelliant: Gwaherddir y myfyriwr o'r coleg yn llwyr neu Gofynnir i'r myfyriwr adael y coleg ac ail-ymgeisio am le i astudio am y flwyddyn ddilynol.
Y broses apêl	Gellir cyflwyno apêl o fewn 3 diwrnod o'r penderfyniad. Bydd angen cyflwyno'r apêl i'r Uwch-arweinydd dynodedig. Rhaid ystyried a gwrando ar yr apêl o fewn 10 diwrnod gwaith.	Bydd templed ar gael i chi nodi'r sail i'ch apêl.

7. Camymddwyn

Yn nhermau cyffredinol, ystyrir 'camymddwyn' fel gweithred sy'n amharu ar weithgareddau'r Coleg neu'i weithrediad dyddiol, neu sy'n effeithio ar y rheini sy'n gweithio neu'n astudio yn y coleg; neu'n difrodi neu'n debygol o ddifrodi'r Coleg a'i enw da.

Yn benodol, mae'r rhestr isod yn crynhoi'r hyn yr ystyriwn fel achosion o gamymddwyn, boed ar safle'r Coleg neu y tu allan iddo. Dylid pwysleisio nad yw hon yn rhestr gyflawn:-

- Unrhyw ymddygiad troseddol
- Unrhyw ymddygiad sy'n niweidio enw da'r Coleg, yn enwedig ei ethos a chenhadaeth Gatholig;
- Unrhyw ymddygiad sy'n mynd yn groes i oblygiadau'r dysgwr o ran cynnal ein disgwyliadau efrydiaeth
- Unrhyw achos o dwyll, llên-ladrata, neu gopïo gwaith dysgwr arall;

- Amharu ar unrhyw weithgaredd academaidd, gweinyddol, chwaraeon a chymdeithasol a gynhelir gan y Coleg mewn modd anweddus;
- Amharu ar unrhyw ddyletswydd neu weithgaredd a wneir gan ddysgwr neu aelod o staff, yn ogystal ag ymwelwyr i'r coleg, mewn modd anweddus;
- Unrhyw ymddygiad tramgwyddus megis bwlio, rhegi, ymddygiad treisgar neu fygwth;
- Aflonyddwch rhywiol neu hiliol wedi'i anelu at unrhyw ddysgwr, aelod o staff, neu ymwelydd i'r coleg;
- Unrhyw achos o dwyll, dichel, neu anonestrwydd o ran y coleg, neu o ran ei staff, dysgwyr, ac ymwelwyr i'r safle;
- Unrhyw achos lle caiff eiddo'r coleg ei ladrata neu'i gamddefnyddio, neu eiddo sy'n berchen i staff, dysgwyr, neu ymwelwyr i'r coleg, gan gynnwys camddefnydd cyfrifiadurol;
- Meddwdod neu dan ddylanwad alcohol tra'n bresennol ar safle'r coleg, neu oddi ar y safle yn ystod gweithgaredd a drefnir gan y Coleg;
- Dan ddylanwad neu'n cyflenwi cyffuriau anghyfreithlon ar safle'r coleg neu oddi ar y safle yn ystod gweithgaredd a drefnir gan y Coleg;
- Methu â dilyn cyfarwyddyd a roddir gan aelod o staff;
- Methu â chydymffurfio â chosb a orfodwyd dan y weithdrefn ddisgyblu;
- Camddefnyddio adeiladau'r coleg;
- Difrodi eiddo'r coleg, neu eiddo staff, dysgwr, neu ymwelydd i'r coleg, boed yn fwriadol neu'n esgeulus;
- Gweithredu mewn modd sy'n debygol o niweidio neu amharu ar ddiogelwch ar safle'r coleg;
- Methu â pharchu hawliau sylfaenol eraill, megis rhyddid cred neu ryddid i lefaru;
- Mynd yn groes i godau, rheolau, neu reoliadau'r coleg;
- Methu â datgelu manylion personol i aelod o staff mewn achos lle mae'n rhesymol i ofyn am y wybodaeth honno.

8. Camymddwyn Dybryd

Ystyrir 'camymddwyn dybryd' fel unrhyw gamymddwyn sy'n cynnwys ymddygiad treisgar, difrod bwriadol i eiddo, peri risg i iechyd a diogelwch bobl eraill, neu unrhyw weithgaredd troseddol neu weithgaredd a allai niweidio enw da'r Coleg. Nid yw'r enghreifftiau hyn yn rhestr gyflawn. Gall achos o gamymddwyn dybryd arwain at wahardd myfyriwr yn syth hyd nes gwneir penderfyniad i'w (g)wahardd yn llwyr.